**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 17-01 (Cofn. drafft)**

**COFNODION**

**Dyddiad** **12 Rhagfyr 01**
**Amser** **2.00 – 5.30pm**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Rhodri Morgan (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Caerdydd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd, Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Datblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Yr Is-adran Cynllunio Economaidd |
| Ron Loveland | ISG |
| David Hobbs | ICM3 |
| Martin Williams | ISG |

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Roger Jones | Cadeirydd, Panel Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth. |
| Iain Willox | WDA |

| | |
|---|---|
| Phil Williams | Rheolwr Gyfarwyddwr, Grosvenor Waterside |
| David Herbert | Grosvenor Waterside |
| Adam Brown | AEA Technology |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth David Davies a Brian Hancock. Dirprwyodd Elin Jones dros Brian Hancock.

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther y mae ei chymar yn berchen ar fusnes ymgynghoriaeth a chan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr ar gwmni bach.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gan roi diweddariad byr ar lafar, yr atodir copi ohono i'w adroddiad ysgrifenedig.
2. Anghytunai'r Gweinidog â'r farn bod ffigurau diweddaraf yr arolwg llafurlu ar ddiweithdra yn dangos bod y bwlch yn ehangu rhwng y rhannau mwyaf ffyniannus o Gymru a'r rhannau tlotaf. Ni chredai fod hyn yn amlwg ar y ffigurau. Ynghylch y cyfraddau gweithgaredd, cytunodd i ddarparu papur i'r Pwyllgor i ddangos y tueddiadau dros y flwyddyn a aeth heibio. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
3. Mynegwyd pryder gan yr Aelodau ynghylch y cyhoeddiad diweddar am golledion swyddi gan Consignia a'r berthynas wael yr ymddangosai ei bod yn bodoli'n ddiweddar rhwng rheolwyr Consignia a'r staff yng Nghymru. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn bryderus hefyd ynghylch yr effaith a gâi cyhoeddiad Consignia ar wasanaethau post gwledig a'r effaith gynyddol ar swyddfeydd post gwledig a'u cyflenwyr. Dywedodd y Gweinidog nad oedd y rheolau a oedd yn ymwneud â chystadleuaeth gynyddol yn effeithio ar wasanaethau llythyrau, dim ond y post parseli, ond y gallent arwain dros amser at "godi'r hufen" a allai effeithio yn ei dro ar wasanaethau gwledig.
4. Holodd rhai Aelodau a oedd gan y Gweinidog unrhyw wybodaeth o flaen llaw am y cyhoeddiad, o wybod am y sïon a fu'n cylchredeg ers tro. Dywedasant fod angen i'r swyddogion fod yn fwy rhagweithiol a datblygu rhyw fath o "system

rhybuddio cynnar" a fyddai’n caniatáu trafodaeth â chwmnïau yn gynnar lle’r oedd problemau’n codi. Nododd y swyddogion ei bod yn arfer da ac yn weithdrefn arferol i’r WDA a hwythau fod yn ymwybodol o golledion swyddi posibl ac i drafod y dewisiadau gyda’r cwmnïau dan sylw.

5. Dywedodd y Gweinidog, mewn perthynas â Consignia, fod y colledion wedi codi ar ôl i’r Cadeirydd newydd gynnal cyfarfod argyfwng o’r bwrdd ac na fyddai unrhyw "system rhybuddio cynnar" wedi gallu rhagweld canlyniad hynny.
6. Yr oedd rhai Aelodau’n bryderus dros ben bod y cyfeiriad at dderbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi ei ddileu yn y fersiwn terfynol o "Cymru ar ei Hennill". Rhoddodd y Gweinidog sicrhad nad oedd yn fwriad ganddo dorri’r Pwyllgor Datblygu Economaidd o’r monitro ar y strategaeth yn y dyfodol.
7. Holodd yr Aelodau y Gweinidog ynghylch y diffyg ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar yr adroddiad ar Gydlyniad yr UE. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gobeithio darparu ymateb cyn y Nadolig ac y byddai’n ceisio gadael i Aelodau’r Pwyllgor Datblygu Economaidd weld yr ymateb cyn ei gyhoeddi. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]** Dywedodd rhai o’r Aelodau fod hyn yn dangos angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gael cysylltiad rheolaidd agosach â’r Comisiwn Ewropeaidd.
8. Holodd un Aelod a fyddai symiau canlyniadol yn codi o’r £20 miliwn a oedd ar gael i weithgynhyrchu a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU yn yr Uwchgynhadledd Gweithgynhyrchu yn Birmingham. Cadarnhaodd y Gweinidog nad arian newydd oedd hwn a bod symiau canlyniadol bach ohono wedi eu derbyn eisoes.
9. Cyfeiriwyd at yr astudiaeth ddiweddar a wnaethpwyd gan y Sefydliad Rheoli Personél a’u galwad ar gwmnïau i ystyried dulliau eraill o leihau costau llafur yn y tymor byr. Dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi gweld yr adroddiad ond yr oedd yn amau a oedd y systemau presennol yn ddigon hyblyg i ymdopi â gostyngiadau dros dro mewn archebion. Dywedodd ei bod yn ymddangos bod mentrau fel gweithio tymor byr yn fwy derbyniol mewn gwledydd fel Sbaen, Ffrainc a’r Almaen. Tynnodd sylw at arfer da yn Airbus.
10. Yr oedd pryder ymysg yr Aelodau ei bod yn ymddangos nad oedd rhai cwmnïau sector preifat yn ymwybodol o’r cynhyrchion a oedd ar gynnig gan Cyllid Cymru. Teimlwyd y dylent fod yn gweithio’n rhagweithiol gydag awdurdodau lleol a rhwydweithiau eraill sydd yn darparu cymorth i fusnes.
11. Mynegodd yr Aelodau bryder, ar ôl penderfyniad yr Adran Masnach a Diwydiant i ganiatáu fferm wynt yng Nghefn Croes, ei bod yn ymddangos nad oedd llais gan bobl Cymru mewn penderfyniadau ynghylch ffermydd gwynt dros 50MW. Cwestiynent y diffyg Ychwiliad Cyhoeddus yn yr achos hwn a dywedasant ei fod yn amlygu’r angen am fwy o drafodaeth rhwng yr Adran Masnach a Diwydiant a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn achosion fel un Cefn Croes. Dywedodd y Gweinidog mai hon oedd y fferm wynt gyntaf yng Nghymru a oedd yn fwy na 50MW a bod hyn yn ei wneud yn fath o achos prawf. Gan nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn un o’r ymgynghoredigion statudol ni allai alw am Ymchwiliad

Cyhoeddus a byddai unrhyw gyfeiriad at hynny yn y cyflwyniad a wnaethpwyd wedi llyffetheirio disgresiwn Gweinidog y DU i bob pwrpas. Dywedodd fod trafodaethau ar y gweill ynghylch y posibiliad o orchymyn trosglwyddo swyddogaethau ond bod y rhain mewn cyfnod rhagarweiniol o hyd. Gofynnodd y Cadeirydd am gylchredeg yr eglurhad ar rôl y Cynulliad yn y broses cymeradwyo i'r Aelodau. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

12. Nid oedd yr Aelodau'n fodlon ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog mewn perthynas â Chyllid Cyfatebol. Eglurodd y swyddogion fod yr wybodaeth ar gael am brosiectau unigol, ond y byddai cyfuno'r wybodaeth yn waith mawr ar hyn o bryd. Yr oedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gosod system ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu darparu'r wybodaeth hon pan fyddai'r system yn llawn weithredol. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig cofio mai'r brif ystyriaeth oedd bod cyllid cyfatebol digonol ar gael, ac yn hynny o beth dywedodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw brinder cyllid cyfatebol a fyddai'n atal prosiectau rhag mynd ymlaen.

## Eitem 3: Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth

1. Dywedodd Roger Jones ei fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Panel Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth ac nid fel darpar Gadeirydd y WDA.
2. Cyflwynodd Ian Willox y papur drwy gyfeirio at yr angen allweddol i newid ymagweddau. Amlinellodd y gwahanol gamau gweithredu a gymerasant i ddarparu'r rhaglen a chyfeiriodd at amryw o dargedau yr oeddent wedi rhagori'n sylweddol arnynt. Terfynodd drwy ddweud ei fod yn credu bod sylfeini'r cynllun wedi eu gosod.
3. Yn y drafodaeth, holodd yr Aelodau tybed a oedd angen newid y cynllun i adlewyrchu cyhoeddi "Cymru ar ei Hennill". Cyfeiriwyd at adroddiad diweddar gan yr Athro Dylan Jones-Evans a ddaethai i'r casgliad y byddai unrhyw weithredu i hybu entrepreneuriaeth yn cymryd o leiaf ddegawd i gael effaith lawn. Pwysleisiodd nad oedd gan y rhan fwyaf o fusnesau bach a chanolig eu maint awydd ehangu a bod angen canolbwyntio ar fusnesau lle'r oedd potensial. Yr oedd wedi cwestiynu doethineb cynorthwyo i gychwyn busnesau ac wedi cwestiynu a oedd methiant mewn gwirionedd i ganfod y meysydd twf allweddol.
4. Wrth ymateb, pwysleisiodd Ian Willox mor anodd oedd canfod cwmnïau twf a bod rhai gofynion fel mynediad at gyfalaf yn debygol o fod yn fater pwysig bob amser. Yr oedd y Cynllun yn hyblyg a châi ei ailasesu'n barhaus. Dywedodd hefyd fod rhan i'w chwarae gan y sector cyhoeddus i helpu busnesau newydd, efallai drwy eu polisïau prynu, yn enwedig o dan y lefelau lle'r oedd angen tendrau agored.
5. Nododd yr Aelodau, er bod y canlyniadau wedi rhagori ar y targedau ar gyfer Camau Allweddol 1-4, nad oedd y rhain ond yn cynnwys 24% o'r gyllideb. Yr oedd y perfformiad yn erbyn Camau Allweddol 5 a 6, a oedd yn 76% o'r gyllideb, yn bell o'r nod. Dywedodd Ian Willox fod hyn yn adlewyrchu oedi mewn lansio'r

rhaglen Amcan 1 ond ei bod yn bwysig hefyd peidio â gweld cychwyniadau newydd yn unig fesur llwyddiant. Rôl hanfodol y rhaglen oedd newid ymagweddau. Yn ogystal â hynny, yr oedd y targedau oddi mewn i'r rhaglen yn seiliedig ar ragdybiaeth o gau'r bwlch yn y cynnyrch mewnwladol crynswth o'i gymharu â'r DU, a gallai gymryd mwy o amser i gyflawni hynny.

6. Dywedodd Roger Jones ei bod yn bwysig seilio gwerthuso ar ganlyniadau yn hytrach na'r broses ac y dylid dechrau ar hynny'n gynnar. Dywedodd eu bod yn disgwyl cwblhau'r astudiaeth gwmpasu ar gyfer cynllun gwerthuso erbyn Ionawr ac y byddai hyn o gymorth i wella'r monitro ar y Cynllun. Dywedodd yr Aelodau ei bod hefyd yn bwysig ceisio sicrhau rhyw fesur o'r canlyniadau ansoddol, yn enwedig newid mewn ymagweddau, ond cytunasant fod hyn yn anodd. Yr oedd y WDA yn cymryd cyngor ar y pwnc a byddent yn adrodd ymhellach i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn eu hadroddiad nesaf ar gynnydd.
7. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd y byddai'r gwerthuso'n mesur cychwyniadau posibl yn nhermau'r nifer a gynorthwywyd, y mathau o gymorth a ddarparwyd a'r nifer o gychwyniadau a gafwyd o ganlyniad. Byddid yn darparu'r wybodaeth hon mewn adroddiadau ar gynnydd yn y dyfodol. Cadarnhawyd hefyd fod y WDA yn cefnogi'r defnydd o ymgynghorwyr busnes personol.
8. Nodwyd bod angen newid diwylliannol nid yn unig ymysg y rhai a allai gychwyn busnes ond hefyd yn y sector busnes ei hun ac ymysg y rhai a allai ddymuno newid y math o fusnes y maent ynddo.

**Eitem 4: Grosvenor Waterside**

1. Cyflwynodd Phil Williams o Grosvenor Waterside y drafodaeth drwy amlinellu gweithgareddau APB ledled de Cymru. Nododd fod Grosvenor Waterside yn marchnata Bae Caerdydd yn weithredol a bod Cymru gyfan o ganlyniad yn gartref posibl i fewnfuddsoddi. Yr oedd Grosvenor Waterside yn awyddus i ddenu busnes mewn sectorau fel TGCh i'r Bae gan fod y rhain yn arfer darparu swyddi â thâl da. Nododd yr angen am fynediad cysylltedd i'r band llydan i sicrhau na chollid cyfleoedd.
2. Dywedodd eu bod yn awyddus i weld cwblhau adeilad newydd y Cynulliad, Canolfan Mileniwm Cymru a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, a fyddai'n gwneud Bae Caerdydd yn lleoliad gwirioneddol ryngwladol.
3. Dywedodd David Herbert fod angen i'r Aelodau gydnabod, beth bynnag fo'r awydd i daenu buddsoddiad o gwmpas Cymru, na fyddai rhai cwmnïau ond yn ystyried lleoliad yng Nghaerdydd. Er hynny, dylid edrych ar hyn yn gadarnhaol mewn perthynas â hybu proffil Cymru'n gyffredinol. Yr oedd Grosvenor Waterside yn gweithio'n agos gyda Chyngor Dinas Caerdydd ar fenter cyhoeddus/preifat mewn perthynas â gwasanaethau bysiau ac yr oeddent yn cydnabod bod anawsterau wrth ddod â gweithwyr i Fae Caerdydd.
4. Yn y drafodaeth mynegodd rhai Aelodau bryderon bod cyllid a ddarparwyd ar gyfer y Bae yn peri anfantais i weddill Cymru. Ailddatganodd Grosvenor

Waterside y farn bod buddsoddi yng Nghaerdydd yn hybu proffil Cymru'n gyffredinol. Dywedasant fod eu buddsoddiad yn y Bae yn dod i tua £90 miliwn. Yr oeddent yn derbyn bod hyn yn fach yn nhermau'r pecyn cyfan o wariant ar y Bae ond na fuasai unrhyw fuddsoddi masnachol heb ddatblygu sector cyhoeddus. Dywedasant ei bod yn bwysig i gymorth y sector cyhoeddus barhau er mwyn llwyddiant y Bae.

5. Holodd yr Aelodau ynghylch datblygu'r pentref chwaraeon. Dywedodd Grosvenor Waterside fod tîm datblygu ar waith a bod y safle wedi ei glirio. Yr oedd cais cynllunio diwygiedig i'w gyflwyno cyn hir a oedd yn rhoi llai o bwyslais ar ddatblygu adwerthu nag yr oedd y cais blaenorol.
6. Dywedodd Grosvenor Waterside fod buddsoddi mewn seilwaith ac mewn trafnidiaeth yn enwedig yn holl bwysig ar gyfer datblygiad parhaus y Bae ac yr oeddent wedi ymrwymo i £1/2 miliwn o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth.
7. Dywedodd yr Aelodau mai'r weledigaeth wreiddiol oedd ailgysylltu'r Bae â Chanol y Ddinas ac, er bod Rhodfa Lloyd George yn gwneud hynny'n ffisegol, nid aethpwyd ymlaen ag unrhyw ddatblygu pellach ers dirwyn y Gorfforaeth Datblygu i ben. Dywedodd y Gweinidog fod Bae Caerdydd yn cynnig her newydd o ran cynllunio a thrafnidiaeth gyhoeddus gan nad oedd yn lleoliad Canol Dinas nac yn lleoliad campws. Atgoffaodd Aelod y Pwyllgor fod lle wedi ei neilltuo yng nghynllun gwreiddiol Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ar gyfer rheilffordd ysgafn i Ganol y Ddinas a bod y tir hwn ar gael o hyd.
8. Yr oedd yr Aelodau'n bryderus nad oedd gan y Cynulliad gyllid digonol oddi mewn i'r gyllideb trafnidiaeth i roi mwy o seilwaith yn y Bae a gofynasant a ddylai Cyngor Dinas Caerdydd fod yn gwneud rhagor. Dywedodd Grosvenor Waterside ei bod yn ymddangos bod cyfle ar gyfer prosiectau menter cyllid preifat ond na allent weld unrhyw ateb arall i'r broblem hon. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu at y Gweinidog dros Drafnidiaeth ynghylch mater trafnidiaeth i'r Bae gan ei bod yn cael ei hystyried yn ffactor sylfaenol yn ei lwyddiant yn y dyfodol. **[Cam Gweithredu: Y Clerc]**

**Eitem 5 – Cefndir i Ffynonellau Ynni Adnewyddadwy**

1. Cyflwynodd Adam Brown ei bapur, gan gyfeirio at y cynnydd a wnaethpwyd yn y sector ffynonellau ynni adnewyddadwy a sut yr oedd y pwyslais wedi symud oddi wrth ddatblygu technoleg at gymwysiadau. Dywedodd fod ffynonellau ynni adnewyddadwy yn cynnig ffordd bwysig o leihau gollyngiadau carbon deuocsid a, gan fod y technolegau wedi eu profi'n dda bellach, yr oedd y costau ynni'n agosáu at y rhai ar gyfer tanwyddau ffosil. Cyfeiriodd at yr ymdrechion i annog datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy ac i gyrraedd y targed o 10 y cant - ac ymhellach. Nododd fod gan Gymru gyfoeth o ffynonellau ynni adnewyddadwy ac mai'r her ar hyn o bryd oedd cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y manteision amgylcheddol y gallent eu cynnig a phryderon ynghylch eu heffaith ffisegol bosibl ar ardal.

2. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r papur yn fawr iawn a'u bod yn teimlo ei fod yn amlinellu'r materion dan sylw yn glir iawn ac yn darparu cefndir da i'w hadolygiad.
3. Nodwyd bod cysylltedd â'r grid yn ffactor allweddol wrth elwa ar fanteision ffynonellau adnewyddadwy ac y gallai'r rhain fod o fudd sylweddol i ardaloedd gwledig. Yr oedd mesur Amcan 1 i gynorthwyo â chysylltedd â'r grid. Un ffactor amgylcheddol hanfodol mewn cynhyrchu ynni oedd y dull o drin cynhyrchion gwastraff ac na châi'r rhain eu llosgi ond eu trin drwy reoli gwastraff.
4. Mynegwyd y teimlad bod y targed o 10 y cant fel lefel ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddadwy yn nod anuchelgeisiol - er bod cyrraedd hynny erbyn 2010 yn debygol o fod yn ymestynnol.
5. Dywedodd Dr Brown ei bod yn gymharol hawdd gwneud dadansoddiad ariannol syml o'r costau o gynhyrchu trydan drwy wahanol ddulliau adnewyddadwy ond ei bod yn anodd mynd â'r dadansoddiad o gostau lawer ymhellach. Nid oedd hon yn wyddor ddatblygedig ac yn y pen draw yr oedd unrhyw ddadansoddiad o'r fath yn dibynnu ar amryw o ddyfarniadau gwerth.
6. Dywedodd fod potensial mewn ffotofolteg mewn rhai ardaloedd ond nad oedd yn debygol o fod yn fuddsoddiad cost-effeithiol yn y DU oherwydd yr hinsawdd. Er hynny, yr oedd y costau'n gostwng a gallai fod yn gost-effeithiol, yn enwedig os oedd yn cyflenwi pwer yn y pwynt defnyddio.
7. Bu peth trafodaeth am gerbydau a allai newid rhwng gweithrediad petrol a gweithrediad trydanol a nodwyd mai prif fantais yr ail oedd y gostyngiad mewn gollyngiadau o'r cerbyd yn hytrach nag unrhyw ostyngiad yn y swm o ynni a ddefnyddid.
8. Cyfeiriwyd hefyd at gynlluniau dyfodolaidd lle y byddai teuluoedd unigol yn cynhyrchu trydan gan ddefnyddio'r hyn yr oedd arnynt ei angen a chyflenwi'r grid â'r gweddill. Yr oedd hyn yn ymddangos yn ddichonol ond ychydig o waith a wneid arno ar hyn o bryd.
9. Un o'r problemau ynghylch ffynonellau ynni adnewyddadwy oedd eu bod yn tueddu i gyflenwi ynni 'yn y lle anghywir' ac yn aml iawn ar ffurf wan. Mewn egwyddor, gallai fod yn bosibl cynhyrchu trydan mewn rhannau o'r byd lle'r oedd amodau'r hinsawdd yn cynnig lefelau uchel o allbwn ond byddai cyfyngiadau ymarferol ar y pellter y gellid cludo ynni o'r fath drosto.

**Eitem 6: Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol**

1. Cytunwyd bod cofnodion 28 Tachwedd yn gofnod cywir.
2. Mewn ymateb i gais gan Aelod, cytunodd y Cadeirydd i osod eitem ar yr agenda i drafod y papur EDC 17-01(p3) Grwp Gorchwyl a Gorffen y Grant Cymorth Menter – Adrodd a Gweithredu. Dywedodd ei bod yn bosibl y byddai'n gorfod aros tan adeg ddiweddarach yn nhymor y gwanwyn. **[Cam Gweithredu: Y Clerc]**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**